Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

7. Dod o hyd i arian a'i gael

7.7.2 Datblygu tendr llwyddiannus

Cipolwg

Mae mwy a mwy o fudiadau trydydd sector yn ceisio amrywio eu ffynonellau incwm drwy ymgorffori strategaethau a thechnegau a fydd yn sicrhau sylfaen gynaliadwy o gyllid iddynt. Mae tendro i gyflenwi nwyddau neu wasanaethau dan delerau contract yn un o'r nifer o ddewisiadau y gellir ei ystyried er mwyn creu incwm.

Mae contractau'n cael eu hennill, a'u colli, ar ansawdd y bidiau a gyflwynir felly mae gallu ysgrifennu tendr da yn hanfodol. Bwriad y daflen wybodaeth hon yw rhoi darlun cryno o sut mae datblygu tendr llwyddiannus.

Beth yw tendr?

Pan fydd corff sy'n prynu yn cyhoeddi Gwahoddiad i Dendro gan wahodd unrhyw bartïon sydd â diddordeb i gyflwyno bid, neu dendr, er mwyn cyflenwi nwyddau neu wasanaethau, tendr yw'r ddogfen ysgrifenedig y byddwch chi'n ei chyflwyno wrth ymateb i'r gwahoddiad hwn.

Mae tendr yn ffordd ysgrifenedig o gyfleu eich cynnig i'r prynwr. Dylai ddangos eich gallu i fodloni eu gofynion, i gynnig gwerth am arian iddynt ac, yn anad dim, i'w darbwyllo i roi'r contract i'ch mudiad.

Dylai tendr roi darlun cywir o'ch mudiad oherwydd gellir eich dal yn atebol am yr holl wybodaeth a gyflwynir yn y tendr pe byddech yn llwyddo i ennill y contract.

Deall y gofynion

Bydd tendr da yn dangos dealltwriaeth drylwyr o'r hyn y mae'r corff sy'n prynu'n ei ofyn amdano a bydd yn cynnig atebion effeithiol a chyraeddadwy er mwyn bodloni'r gofynion hynny. Felly mae'n rhaid i chi ddeall yn llwyr yr hyn y gofynnir amdano a pham, a bod mewn sefyllfa i ymateb yn briodol.

Bydd gofynion y prynwr yn cael eu nodi fel arfer mewn dogfen a elwir yn 'Fanyleb' neu 'Fanyleb y gwasanaeth'. Rhaid i chi astudio hon yn ofalus, ynghyd ag unrhyw wybodaeth ategol.

Bydd prynwyr hefyd yn darparu manylion ynghylch sut y rhoddir sgôr i dendrau (meini prawf arfarnu) a bydd y rhain yn eich helpu i ddeall meysydd pwysicaf y tendr a sut yr asesir 'gwerth am arian'.

Efallai hefyd y bydd prynwr yn cynnal cyfarfodydd i roi eglurhad pellach a rhoddir cyfle i gyflenwyr posib drafod y ddogfen tendr. Mae'r rhain yn gyfleoedd gwych i geisio cael esboniad pellach ynghylch beth yn union sy'n ofynnol, yn ogystal ag i gwrdd â darpar fidwyr eraill y gallech fod yn cystadlu yn eu herbyn.

Paratoi a chynllunio

Mae rhoi tendr llwyddiannus at ei gilydd yn golygu amser ac adnoddau. Cyn rhoi pin ar bapur, lluniwch gynllun gwaith sy'n nodi'r canlynol:

- Pa wybodaeth y gofynnir amdani, a faint o amser y bydd ei angen i'w chasglu
- Amserlen ar gyfer drafftio, golygu a gwirio eich ymateb i'r tendr
- Cymorth pwy arall yn eich tîm y gall fod ei angen arnoch chi i roi'r tendr at ei gilydd

Beth sy'n creu tendr da?

1. Dilyn cyfarwyddiadau
Mae prynwyr yn rhoi cyfarwyddiadau am reswm. Gall y rhain gynnwys manylion ynghylch cynllun y tendr a phryd ac i ble y dylid ei anfon. Os na fyddwch yn dilyn y cyfarwyddiadau, mae'n bosib na chaiff eich tendr ei ystyried. **2. Ymateb trylwyr**
Rhaid i chi roi sylw i **bob un** o'r gofynion a nodir ym manyleb y prynwr. Bydd disgwyl i chi fodloni'r safonau sylfaenol er mwyn sicrhau bod eich tendr yn cael ei ystyried yn briodol. Dangoswch eich bod yn deall y gofynion gyda chynigion yn seiliedig ar eich gwybodaeth, eich profiadau a'ch sgiliau.

3. Tystiolaeth ac enghreifftiau
Rhowch dystiolaeth ac enghreifftiau i gefnogi pob datganiad a wneir yn eich tendr. Dim ond ar sail yr wybodaeth o'u blaenau y gall prynwyr benderfynu ynghylch a yw tendr yn bodloni eu gofynion neu beidio.

4. Strwythur
Dylai strwythur tendr fod yn rhesymegol ac yn ddealladwy, a dylai ddilyn trefn dogfennau'r tendr a anfonwyd atoch chi. Mewn tendrau sydd wedi'u strwythuro'n wael, gellir methu gwybodaeth bwysig yn ystod yr arfarniad.

5. Ansawdd yr ysgrifennu
Yn aml, mae tendrau'n methu oherwydd bod yr ysgrifennu yn aneglur, yn afresymegol ac yn methu â chyfleu negeseuon allweddol y cynnig a wneir. Rhaid i dendrau gael eu hysgrifennu mewn ffordd sy'n glir, yn ddiamwys ac yn gwbl berthnasol.

6. Gramadeg, atalnodi a sillafu
Rhaid i dendrau fod yn ramadegol gywir, gan atalnodi'n briodol a sillafu'n gywir. Mae gramadeg a sillafu gwael yn amhroffesiynol a bydd yn gwneud i'ch tendr ymddangos yn frysiog.

7. Sicrhau eich bod yn wahanol i bawb arall
Mae tendr yn gyfle i chi werthu eich mudiad i gorff sy'n prynu. Er mwyn llwyddo, rhaid i chi sicrhau eich bod yn wahanol i bawb arall. Hyrwyddwch bwyntiau gwerthu unigryw eich mudiad, a beth sy'n eich gwneud yn wahanol i bawb arall yn y gystadleuaeth.

8. Gwybodaeth ariannol gywir
Nodwch gost lawn eich gwasanaethau, gan ystyried gorbenion ac argostau. Rhowch ddigon o wybodaeth er mwyn i'r prynwr allu penderfynu a yw eich tendr yn cynnig gwerth am arian neu beidio

9. Cyflwyniad
Bydd tendr sydd wedi'i gyflwyno'n dda bron yn ddieithriad yn gwneud yn well na bid sydd wedi'i gyflwyno'n wael. Peidiwch ag ysgrifennu'r tendr, heblaw bod hyn yn gwbl amhosib. Mae mynegai'n ddefnyddiol, gyda thudalennau wedi'u rhifo'n glir a gwybodaeth ategol wedi'i labelu'n glir.

Pam mae tendrau'n methu

Bydd tendrau'n aml yn methu am resymau y gellir eu hosgoi:
- Gwallau gweinyddol syml – megis peidio â llofnodi'r tendr neu fethu ei gyflwyno mewn pryd i'r person iawn yn y lle iawn.
- Methu â darparu gwybodaeth ychwanegol neu ategol, neu hepgor darnau cyfan.
- Methu ag ateb cwestiynau'n llawn neu ddim o gwbl.
- Ymatebion aneglur ac anghyson.

Crynodeb a chynghorion doeth

Mae tendr o safon:
- yn deall ac yn rhoi sylw i holl ofynion y prynwr
- yn glir ynghylch y gwasanaeth rydych chi'n ei gynnig
- yn gystadleuol ac yn cynnig gwerth am arian
- wedi'i ysgrifennu a'i gyflwyno'n dda, ac yn hawdd ei ddarllen

Cofiwch fod tendro yn cymryd amser ac yn defnyddio adnoddau ac yn anad dim, peidiwch â bod ofn gofyn cwestiynau!

Gwybodaeth bellach

Taflenni gwybodaeth
3.7 Comisiynu
3.8 Contractau
7.1 Cyflwyniad i gaffael
7.7.1 Cyflwyniad i dendro
7.7.3 Costio eich tendr

Ochr gyfreithiol

- Mae *CC37 Elusennau a darparu gwasanaeth cyhoeddus* a gynhyrchwyd gan y Comisiwn Elusennau, yn nodi'r ystyriaethau ar gyfer elusennau wrth ymgymryd â chontract. Gellir ei llwytho oddi ar www.charity-commission.gov.uk
- Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch goblygiadau treth at Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi.
  0845 302 0203
  www.hmrc.gov.uk/charities/vat/intro.htm

Cefnogaeth

- Mae Cynghorau Gwirfoddol Sirol yng Nghymru yn rhoi gwybodaeth am ystod eang o faterion ariannol a chyllido gan gynnwys tendro. Gweler y daflen wybodaeth '1.7 Lle i fynd am gymorth' i gael manylion eich Cyngor Gwirfoddol Sirol lleol.
- Mae Porth Cyllido Trydydd Sector Cyllid Cynaliadwy Cymru yn siop un-stop ar gyfer cyngor a chyfleoedd cyllido.
  www.sustainablefundingcymru.org.uk
- Mae tîm 3-SET WCVA yn rhoi arweiniad ar dendro ar gyfer cyfleoedd a ariennir gydag arian Ewrop.
  0800 2888 329
  3SET@wcva.org.uk
- Nod Gwasanaeth Datblygu Cyflenwyr Llywodraeth Cymru yw rhoi cyfle gwell i fusnesau o bob sector ennill contractau'r sector cyhoeddus.
  www.business-support-wales.gov.uk

Hyfforddiant

- *Cyflwyniad i dendro* – manylion cwrs rhagarweiniol undydd sydd ar gael yn www.coursesforcommunities.org.uk
- *Sut mae tendro* – mae manylion cwrs deuddydd ymarferol yn dilyn y camau sy'n gysylltiedig ag ysgrifennu a chyflwyno tendr ar gael yn www.sustainablefundingcymru.org.uk

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful
Canolfan Gweithredu Gwirfoddol, 89-90 Stryd Fawr, Merthyr Tudful, CF47 8UH
Elusen Gofrestredig *1060242*

Ffôn: 01685 353900 enquiries@vamt.net
Ffacs: 01685 353909 www.vamt.net

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:28/06/2011

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
wcva
Wales Council for Voluntary Action

Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk